

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 26AIN O FEHEFIN 2017 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Jill Evans, Iona Edwards-Jones, Elfed Williams, Stanley Williams, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch ynghyd a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Hywel Davies a Falmai Evans.

2. TRAFODAETH GYDAG ANN BITCON, YSGRIFENYDDES CYMDEITHAS CADWRAETH LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH.

Croesawyd Ann Bicton i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Rhoddwyd adroddiad o'r Gymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr Y.C. i'r aelodau. Y prif reswm am fynychu'r cyfarfod oedd fydd yna les i'r "Gymdeithas" am 20 flynedd ar ôl orffen y prosiect gyda'r "Heritage Lottery Fund" a gofynnwyd am fudiad lleol (e.e. Cyngor Cymuned leol) a fydd yn fodlon cymal y les drosodd os nad oed y "Gymdeithas Cadwraeth" yn bodoli am yr holl 20 mlynedd ar ôl orffen y prosiect. Cytunwyd yr aelodau i drafod y mater yn cyfarfod mis Medi ac adroddi yn ol i Ann Bitcon a diolchwyd iddi am fynychu'r cyfarfod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 22ain o Fai 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad Trevor Carr, Cydlynnydd Gwasanaeth Stryd (Ardal Dinbych) Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod y ffyrdd rhwng Rossa Fawr - Bryn Mulan (Prion) a Prion tuag at Lanrhaeadr wedi cael eu trwsio. Derbyniwyd adroddiadau'r aelodau bod yna dal tyllau ar y ffordd rhwng Prion a Lanrhaeadr a chytunodd y Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch adroddi'r mater i Trevor Carr.

B. Mae BT wedi tynnu'r tyfiant tu fewn i Flwch Ffon Gyhoeddus ym Mhrion.

C. Derbyniwyd dau arwydd "Araf - Plant yn Chwarae" oddi wrth "PR Signs".

D. Mae'r Cynghorydd Philip Williams yn edrych i mewn i'r "Tir Comin" tu ol i Ysgol Pant Pastynog, Prion gyda'r Esgobaeth Llanelwy.

E. Derbyniwyd prisiau gan y Cadeirydd am drwsio'r ffens wrth Flwch Postio Frenhinol ym Mhentre' Llanrhaeadr, sef:-

1. Gwmni G L Jones Welding o Rhuthun - £900.00.

2. Gwmni Celtic Dreams o Ddinbych - £650.00.

Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn pris Celtic Dreams o Ddinbych.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc nid derbyniwyd unrhyw gais am lenwi'r sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor, ac felly ail hysbyswyd y sedd wag gydag y diwrnod cau am geisiadau ar 21ain o Orffennaf 2017.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £11,967.00.

B. Taliadau:-

1. PR Signs o Ddinbych am ddau arwydd - £62.40.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2017 - £406.10.

3. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2017 - £101.40.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Ymestyn Parc Gwyliau presennol i ganiatáu ar gyfer 41 o Garafanau Gwyliau Statig yn lle 41 Llain Deithiol Gymysg gydag ildio elfen ogleddol y parc yng Nghaer Mynydd Caravan Parc, Saron. Derbyniwyd yr aelodau sylwadau tri aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol ynglŷn ar gais cynllunio. Ar ol trafodaeth ynglŷn ar gais penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais cynllunio a sefydlwyd is-bwyllgor i ysgrifennir sylwadau'r Cyngor i'w weld gan y Cadeirydd i basio ymlaen i'r Clerc ysgrifennu at Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych. Penderfynwyd hefyd i'r Clerc trefnu cyfarfod gyda Darren Millar, Aelod y Cynulliad dros Orllewin Clwyd i drafod y cais cynllunio.

B. Amrywio amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio rhif cod 23/2016/0459 i ganiatáu newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd yn Llwyn Onn, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

8. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth o'r "Cyfarfod Clwstwr Rhuthun" a threfnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar nos Iau 20fed Gorffennaf 2017 yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 6.00 o'r gloch - Y Cynghorwyr Bari Evans a Iona Edwards-Jones i fynychu dros y Cyngor.

B. Derbyniwyd yr aelodau manylion cyfarfodydd "Hyfforddiant Cod Ymddygiad" a threfnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i'r Cynghorau Lleol.

C. Derbyniwyd yr aelodau manylion cyfarfodydd hyfforddiant Gogledd Cymru a threfnwyd gan Un Llais Cymru.

D. Derbyniwyd gwybodaeth fydd SCCH Lucy Green o Orsaf Heddlu Dinbych yn mynychu'r cyfarfod nesaf y Cyngor.

E. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd gwahodd Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Hilditch-Roberts, sydd yn gyfrifol am Addysg ar y Cabinet y Sir, i'r cyfarfod mis Medi 18fed 2017 y Cyngor i drafod prinder lle yn Ysgolion Bro Cinmeirch Llanrhaeadr a Phant Pastynog Prion.

B. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Iona Edwards-Jones ei fod mewn trafodaeth gyda Scottish Power ynglŷn ar safle parcio a diogelwch yn Ysgol Pant Pastynog, Prion.

C. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Prinder arwyddion ffyrdd i Ysgol Pant Pastynog, Prion.

2. Gwastraff BT wrth y Blwch Postio gyferbyn a stad Bryn Llan yn Llanrhaeadr.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 31ain o Orffennaf 2017 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.